# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig
# Annual Report for Elected Members

**Cynghorydd:/ Cllrs Driscoll and Hill-John** **Plaid/ Party: Conservative**

**Ward: Llandaf/Llandaff** **Etholwyd yn Gyntaf/First Elected: 5 May 2017**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig 2017/2018 a ddaeth i ben ar 24 Mai 2018. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim byd arall.

| |
|---|
| **Adran 1 – Rolau a Chyfrifoldebau**<br><br>Mae'r Cynghorydd Driscoll yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Phanel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.<br><br>Mae'r Cynghorydd Hill-John yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Mae'r Cynghorydd Hill-John hefyd yn llefarydd y blaid ar Ofal Cymdeithasol ac Iechyd.<br><br>’Cofnod Mynychu’r Cynghorydd Driscoll <http://cardiff.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?XXR=0&DR=25%2f05%2f2017-23%2f05%2f2018&ACT=Go&UID=448&LLL=0><br><br>Cofnod Hyfforddiant y Cynghorydd Driscoll<br><br>’Cofnod Mynychu’r Cynghorydd Hill-John <http://cardiff.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?UID=974&LLL=0><br><br>Cofnod Hyfforddiant y Cynghorydd Hill-John |
| **Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth**<br><br>Aethpwyd i'r afael â nifer o faterion lleol yn Llandaf. Mae'r rhain yn cynnwys: biniau mwy ym Maes Parcio’r Stryd Fawr; biniau cribog newydd yn Cathedral Green; biniau newydd ar Heol Caerdydd; lampau treftadaeth newydd ar Cathedral Green; sicrhau arian i ail-baentio Ffynnon Sant Illtyd; mannau parcio i breswylwyr yn unig, Palace Avenue; llenwi tyllau yn y ffyrdd; ail-osod arwyddion; cael gwared ar dipio anghyfreithlon ac ysbwriel; codi materion ansawdd aer a rheoli traffig; cynnig bod y Maes Parcio ar y Stryd Fawr i gael ei gynnwys ar gyfer mannau ail-bweru cerbydau trydan.<br><br>Rydym yn cydnabod bod nifer o faterion parhaus i'w datrys o hyd gan gynnwys tagfeydd traffig, parcio a gwarchod adeiladau hanesyddol Llandaf. |

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llandaf, y Grŵp 50+, Pwyllgorau Cymdeithasau Preswylwyr a gwirfoddolwyr a roddodd lawer o ymdrech er mwyn gwneud Llandaf yn lle gwych. Rydym wedi mwynhau gweithio gyda Chymdeithas Llandaf a'r Grŵp 50+, ac rydym wedi cyfarfod â rhai pobl ymroddedig a rhagorol. Edrychwn ymlaen at yr heriau sydd eto i ddod ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr lleol yn y dyfodol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fe wnaethom lansio ymgyrch 'Carwch Eich Cartref' yn Danescourt ar 14 a 15 Mai 2018 gyda 'sesiwn casglu sbwriel' ac 'ymdrech fawr' ar arwyddion, clirio draeniau a chwyn.

Mae Cynghorwyr Llandaf wedi ymgyrchu'n barhaus am fonitro ansawdd aer byw y tu allan i ysgolion yn Llandaf. Roedd Hysbysiad o Gynnig, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Driscoll ac a secondiwyd gan y Cynghorydd Hill-John, mewn cyfarfod o'r Cyngor wedi ceisio darparu monitro byw o ansawdd aer yn Llandaf a ledled y ddinas.

Cyfarfu'r Cynghorwyr Driscoll a Hill-John â Chyfarwyddwyr Banc Barclays a Chyfarwyddwr Rhanbarthol Banc National Westminster yn dilyn y cyhoeddiadau y byddai'r canghennau lleol yn cau. Ceisiodd Cynghorwyr Llandaf sicrwydd y byddai'r banciau'n cyflwyno mesurau i leihau effaith y cau ar fusnesau lleol a thrigolion oedrannus, megis darparu gwasanaeth bancio symudol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Mae Cynghorwyr Llandaf wedi ailsefydlu cyfarfodydd PACT yn y ward, sy'n cael eu cynnal gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bob 6 wythnos yn Danescourt. Caiff cyfarfodydd pellach eu sefydlu yn Insole Court cyn bo hir.

Mae'r Cynghorwyr wedi sefydlu cysylltiadau cyfathrebu agos gyda'r datblygiad Plasdŵr mewn ymgais i sicrhau bod y trigolion lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac maent hefyd wedi gweithio gyda'r sefydliadau lleol i fynd i'r afael â materion parcio yn yr ardal.

**Y Cynghorydd Sean Driscoll**
**Y Cynghorydd Philippa Hill John**

**Dyddiad: 05/06/18**